# Cofnodion cyfarfod Bwrdd Cynghori Cenedlaethol AGC – 7 Chwefror 2024

## Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd, Dr Ruth Hussey, yr aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd pump ymddiheuriad.

| Y sawl a oedd yn bresennol | Cynrychiolwyr AGC | Ymddiheuriadau |
|---|---|---|
| • Dr Ruth Hussey (Cadeirydd)<br>• Órlaith Brennan<br>• Kate Cubbage<br>• Stuart Davies<br>• Natalie Fletcher<br>• Rachel Harris<br>• Carole Jones<br>• Bethan Louise Kay<br>• Peter Max<br>• Claire Protheroe<br>• Rachel Thomas<br>• Mary Wimbury | • Gillian Baranski<br>• Kevin Barker<br>• Sarah Glynn-Jones<br>• Emma Mackintosh<br>• Myfanwy Moran<br>• Richard Payne<br>• Vicky Poole<br>• Margaret Rooney | • Valerie Billingham<br>• Melanie Davies<br>• Julia Nawell<br>• Jenny Williams<br>• Sharon Williams |

## Camau gweithredu o'r cofnodion blaenorol – 4 Hydref 2023

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Cam gweithredu blaenorol:** Cynnal trafodaeth hwy cyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2023-24 er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r aelodau yn cael eu cynnwys yn fanwl. ***Trefnwyd i gyfarfod fis Hydref gael ei gynnal yn gynharach, ym mis Medi, er mwyn hwyluso hyn.***

**Cam gweithredu blaenorol:** Cytunodd Kevin Barker i rannu dogfen arferion gorau a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect gwella gofal plant a chwarae. ***Kevin i rannu'r ddogfen.***

## Sgwrs agoriadol a Chwestiynau ac Atebion

Soniodd y Prif Arolygydd Gillian Baranski wrth yr aelodau am gyllideb Llywodraeth Cymru a fyddai'n cael ei chyhoeddi ddiwedd y mis. Ar hyn o bryd, mae gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyllideb wastad sy'n creu pwysau ariannol sylweddol mewn termau real.

Ar hyn o bryd, mae prosesau recriwtio allanol i swyddi yn AGC wedi'u hatal ac mae amlder arolygiadau a'r rhaglen waith ar gyfer perfformiad awdurdodau lleol wrthi'n cael eu hadolygu. Caiff gwaith sy'n gysylltiedig â meysydd eraill fel gwaith ar y cyd ag Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi hefyd ei atal oherwydd pwysau cyllidebol.

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun peilot graddau ‘mud’ ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref

Rhoddodd y pennaeth arolygu gwasanaethau oedolion a phlant, Sarah Glynn-Jones, drosolwg o'r cynllun peilot a ddechreuodd fis Mehefin diwethaf i'r aelodau. Cafodd cwmni Practice Solutions Ltd ei gomisiynu i gynnal gwerthusiad annibynnol ac i lunio adroddiad ar y canfyddiadau yn ystod gwanwyn 2024.

Roedd yn galonogol nodi nifer y graddau rhagorol/da a oedd yn cael eu rhoi i wasanaethau. Mae gwasanaethau yn cael pedair gradd sy'n gysylltiedig â phedair thema arolygu, yn hytrach nag un radd gyffredinol.

**Y graddau mud (heb eu cyhoeddi) hyd yn hyn**

- Cyfanswm nifer yr arolygiadau o gartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref lle rhoddwyd graddau mud/heb eu cyhoeddi: 659
- Rhagorol: 248
- Da: 1594
- Angen gwella: 441
- Gwael: 176

Dywedodd y Cadeirydd, Dr Ruth Hussey fod y gwerthusiad yn swnio'n “holl bwysig” o ran clywed lleisiau pawb sy'n gysylltiedig â'r broses er mwyn i AGC allu gwneud penderfyniadau gwybodus wrth symud ymlaen.

Rhoddodd Sarah hefyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y broses o gofrestru gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig eleni ac am gyhoeddi cyfeiriadau e-bost/rhifau ffôn ar gyfer yr holl wasanaethau oedolion a phlant ar wefan AGC, yn unol â deddfwriaeth.

## Adolygiad iechyd meddwl ar y cyd ag Estyn o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Rhoddodd Myfanwy Moran, un o uwch-reolwyr tîm arolygu awdurdodau lleol AGC y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn ar y cyd â chydweithwyr yn Estyn.

Gofynnodd Claire Protheroe (PACEY Cymru) a fyddai gwasanaethau gofal plant a chwarae yn cael eu cynnwys. Esboniodd Myfanwy fod y gwaith yn berthnasol i blant rhwng 11 ac 16 oed.

Ychwanegodd Myfanwy fod y tîm yn awyddus i ystyried gofal cymdeithasol o safbwynt cyfannol.

## Y wybodaeth ddiweddaraf am ofal plant a chwarae

Soniodd Kevin Barker, pennaeth arolygu gofal plant a chwarae, wrth yr aelodau am ymarfer casglu data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) blynyddol y mae'n ofynnol i ddarparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig ei gwblhau.

Bydd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth 2025 yn arbennig o bwysig gan y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol lunio eu hasesiadau digonolrwydd gofal plant i Lywodraeth Cymru, a'u bod yn dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir gan y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.

Dangosodd Kevin offeryn hunanadrodd data ar gyfer gofal plant a chwarae AGC sy'n defnyddio'r data a gesglir yn y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, yn ogystal â data cofrestru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ymateb i'r adolygiad annibynnol o warchod plant. Mae tîm gofal plant a chwarae AGC o dan arweiniad Ceri Herbert yn gweithio'n agos iawn â Claire Protheroe o PACEY Cymru ac eraill i lunio ymateb i'r adolygiad.

Cynhaliodd AGC 60 o gyfarfodydd gwella â gwasanaethau fel rhan o'r prosiect gwella gofal plant a chwarae peilot: Roedd 96% o'r unigolion a oedd yn rhan o'r arolwg o'r farn bod y canllawiau ar y cyfarfodydd gwella yn glir; roedd 91% o'r farn eu bod wedi cael cymorth i wella ansawdd eu lleoliad o ganlyniad i'r cyfarfod a chafodd 57% eu cyfeirio at ffynonellau help a chymorth pellach, sydd hefyd yn rhan allweddol o'r cyfarfodydd gwella.

Gofynnodd Peter Max a fyddai'r cynllun peilot yn cael ei ailadrodd mewn unrhyw ran arall o'r arolygiaeth. Dywedodd Gillian Baranski fod y sefydliad bob amser yn ystyried a oes modd ailadrodd arferion da.

Nododd Kevin hefyd fod gwerthusiad annibynnol hefyd yn mynd rhagddo o'r rhaglen arolygiadau ar y cyd ag Estyn, gan fod y rhaglen honno wedi bod ar waith ers pum mlynedd.

## Ymateb AGC i hysbysiad atal marwolaethau yn y dyfodol y crwner a gyhoeddwyd i Ofsted

Trafododd Vicky Poole y gwersi a ddysgwyd o'r cwest a gynhaliwyd y llynedd i farwolaeth drasig y pennaeth Ruth Perry, a gyflawnodd hunanladdiad yn dilyn arolygiad gan Ofsted a roddodd radd ‘annigonol’ i'w hysgol.

O ganlyniad i'r cwest, cyhoeddodd y crwner adroddiad atal marwolaethau yn y dyfodol i Ofsted, sef y sefydliad sy'n cyfateb i AGC yn Lloegr ar gyfer y sector penodol hwn.

Dywedodd Vicky fod tîm arwain AGC yn teimlo ei bod hi'n bwysig i ni nodi argymhellion y crwner. Roedd adroddiad y crwner yn ymdrin â phedwar prif bwnc: cynnal yr arolygiad ei hun; system Ofsted o ddefnyddio dyfarniad un gair; gofyniad cyfrinachedd sy'n golygu na chaniateir i benaethiaid rannu canfyddiadau eu harolygiad hyd nes y caiff yr adroddiad arolygu ei gyhoeddi; a'r cyfnod amser rhwng yr arolygiad a'r adroddiad terfynol a all achosi mwy o ofid i bobl.

Esboniodd Vicky fod nodyn wedi cael ei ddrafftio i'r staff a bod hyfforddiant wedi'i gomisiynu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys adnabod arwyddion o ofid ac effaith bosibl ar iechyd meddwl pobl; rhoi cymorth i arolygwyr; a ble y gellir cyfeirio pobl i gael cymorth ychwanegol.

Dywedodd Mary Wimbury (Fforwm Gofal Cymru) ei bod hi'n falch iawn bod AGC wedi ystyried y mater hwn yn ofalus. Disgrifiodd adborth yr oedd Fforwm Gofal Cymru wedi'i gael o ran effaith y gair ‘gwael’ fel un o'r categorïau dyfarnu nid yn unig ar y rhai hynny yr oedd yn uniongyrchol berthnasol iddynt ond ar breswylwyr a staff hefyd.

Bydd y gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot graddau mud yn ystyried y disgrifyddion a ddefnyddir.

Dywedodd Dr Ruth Hussey fod hyn yn pwysleisio pwysigrwydd y gwerthusiad o'r cynllun peilot graddau mud.

Gofynnodd Rachel Harris (darparwr gofal plant a chwarae) am arolygiadau AGC ar y cyd ag Estyn ac a oes cyfnod o oedi (*‘time lag’*) fel y bu yn y gorffennol.

Dywedodd Kevin Barker nad oes cyfnod o oedi o safbwynt AGC, ond o bosibl y byddai'r ateb yn wahanol o safbwynt Estyn. Dywedodd Vicky Poole fod Estyn hefyd yn ystyried adroddiad y crwner.

## Diogelu

Rhoddodd Vicky Poole y wybodaeth ddiweddaraf am y gyfres o adroddiadau diogelu roedd AGC wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar, gan gynnwys yr adolygiad cyflym o

drefniadau amddiffyn plant; adroddiad trosolwg ar yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus; a'r Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) Powys.

Gofynnodd Dr Ruth Hussey sut y gall pobl fod yn ymwybodol o nodweddion arferion diogelu da.

Cyfeiriodd Vicky yr aelodau at Weithdrefnau Diogelu Cymru a safonau hyfforddiant cyhoeddedig Gofal Cymdeithasol Cymru. At hynny, roedd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Phrifysgol Metropolitan Manceinion wedi datblygu cyfres o fesurau perfformiad ym maes diogelu.

## Lleisiau aelodau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

Disgrifiodd Carole Jones (aelod sy'n ofalwr ac sy'n defnyddio gwasanaethau gofal) yr anawsterau yr oedd hi ac eraill yn eu cael â thaliadau uniongyrchol.

Atgoffodd Vicky Poole yr aelodau er na all AGC ymchwilio i gwynion unigol, ein bod yn awyddus iawn i glywed pryderon pobl. Pan fyddwn yn cynllunio ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol, rydym yn defnyddio'r wybodaeth honno wrth ystyried pa elfennau y dylem eu hystyried.

Esboniodd Natalie Fletcher (darparwr gofal) fod heriau staffio sylweddol wedi codi ers ein cyfarfod diwethaf, sy'n effeithio ar blant.

Rhannodd Rachel Harris (darparwr gofal plant a chwarae) bryderon mewn perthynas â staffio a chyfeiriodd hefyd at y pwysau busnes ychwanegol oedd ar wasanaethau.

Dywedodd Claire Protheroe (PACEY Cymru) fod pwysau staffio tebyg ym maes gwarchod plant a bod gostyngiad parhaus yn nifer y gwarchodwyr plant.

Dywedodd Órlaith Brennan (darparwr gwasanaeth cymorth cartref a gofalwr maeth) fod y sefyllfa yr un peth ym maes cymorth cartref, a bod nifer uchel o staff yn gadael eu gwasanaeth. Mae pobl ifanc sy'n astudio ar gyfer cymwysterau gofal cymdeithasol yn eu defnyddio fel llwybr i'r GIG yn hytrach na gofal cymdeithasol.

Gofynnodd Prif Arolygydd AGC Gillian Baranski tybed a ydym, fel sector, yn defnyddio methodolegau recriwtio a chadw staff o oes a fu.

Nododd Vicky Poole fod gwaith AGC mewn perthynas â diwylliannau cadarnhaol yn helpu i gadw staff.

Dywedodd Dr Hussey fod cyflog a dulliau gwobrwyo yn holl bwysig, felly hefyd llesiant staff, ac y bydd angen ailddylunio gwasanaethau er mwyn denu a chadw staff. Dywedodd Dr Hussey ei bod bellach o bosibl yn bryd ystyried rolau a rennir o fewn iechyd a gofal cymdeithasol o ystyried bod staff yn symud o faes gofal cymdeithasol i'r GIG er mwyn camu ymlaen yn eu gyrfa. Er bod y cyfraddau cyflog yn wahanol iawn, rhaid bod ffyrdd o ddylunio swyddi lle gallai pobl symud rhwng y ddau wasanaeth a meithrin eu sgiliau.

Dywedodd Gillian ei bod yn cyfarfod â Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Judith Paget ac y byddai'n crybwyll y mater hwn.

Diolchodd Dr Hussey i Natalie am ysgogi trafodaeth mor fuddiol.

Soniodd Rachel Harris am hyfywedd ariannol gwasanaethau, gan ychwanegu bod lleoliadau yn ystyried cynyddu eu ffioedd a fyddai, yn y pen draw, yn effeithio ar rieni. Roedd nifer fwy o blant ag anghenion cymhleth yn dechrau mynychu ei lleoliad, ond nid oedd unrhyw gyllid penodol ar eu cyfer, oni bai eu bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

**Cam gweithredu: Gillian i godi'r mater â Busnes Cymru.**

Mae darparwyr gofal plant a chwarae wedi sôn wrth AGC am faterion ymddygiadol, y mae rhai ohonynt yn deillio o'r pandemig, sy'n creu gwaith ychwanegol.

Dywedodd Dr Hussey fod anghydraddoldebau iechyd yn ystod y blynyddoedd cynnar yn un o'r heriau iechyd pwysicaf rydym yn eu hwynebu, a'i bod hi'n hanfodol rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd.

**Cam gweithredu: Gillian i godi'r mater â Phrif Swyddog Meddygol Cymru.**

Soniodd Órlaith Brennan am anghysondebau roedd wedi'u gweld rhwng gwahanol awdurdodau lleol ac amddiffyn plant, mewn perthynas â'i rôl fel gofalwr maeth. Rhoddodd Órlaith ddisgrifiad grymus o'r gwahaniaeth o ran y cymorth a gafodd dau blentyn â chefndiroedd tebyg a'r gwahaniaeth o ran y canlyniadau i'r ddau blentyn hynny. Nododd nad oedd un person ifanc wedi cael cynnig unrhyw therapi na gwasanaethau eirioli, ac nad oedd unrhyw gymorth ychwanegol wedi'i ddarparu er mwyn iddo ymdopi â'i drawma.  Ond roedd person ifanc arall o dan amgylchiadau tebyg wedi cael cynnig sawl cyfarfod â'i ofalwyr maeth, er mwyn gweld ble y byddai'n byw a dod â theganau gydag ef. Rhoddwyd dull tîm cyfan ar waith a oedd yn cynnwys therapyddion chwarae, seicolegwyr, pediatregwyr a ffisiotherapyddion. Roedd yr holl unigolion hyn yn bresennol mewn cyfarfodydd ac yn trafod gwahanol agweddau ar ofal yr unigolyn hwnnw a sut mae'n effeithio ar ei fywyd o ddydd i ddydd. Dywedodd Órlaith y byddai'r gweithiwr cymdeithasol yn trefnu cyfarfod tîm ar unwaith, bob tro y byddai ymddygiad newydd yn dod i'r amlwg, gan roi cyfle i'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol gyfarfod o amgylch y bwrdd a thrafod yr ymddygiad hwnnw er mwyn rhoi cynllun ar waith ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

Dywedodd Órlaith: "*As a foster carer it's so disheartening because you're screaming for support and both social workers were fantastic, but it was about their ability to access support and partnership working, and the consistency of what's available across the different regions. That was the frustration we faced. You're trying to give this young person the best opportunity and you know if we got this support in place, it would make such a difference, but you're hitting a brick wall.*

Aeth yn ei blaen: *"We know [with] trauma the older they get, the harder it is to repair that earlier trauma. It was absolutely heart breaking to see the difference between the two approaches. That need for advocacy is so important for young people to feel they are being listened to."*

Dywedodd Dr Hussey "*[it was] incredibly powerful to listen to your experience and reminds us of the important role foster carers play, and how much we rely on them."*

Nododd Myfanwy Moran, un o uwch-reolwyr tîm awdurdodau lleol AGC fod tystiolaeth Órlaith yn cynnwys negeseuon pwysig a phwysleisiodd yr angen i ymgysylltu â gofalwyr maeth yn ogystal â darparwyr gwasanaethau fel rhan o'r adolygiad iechyd meddwl arfaethedig.

Soniodd Carole Jones am yr anawsterau roedd gofalwyr yn eu hwynebu gan nad oeddent yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a'u bod yn gorfod aros am amser hir i gael asesiad.

Awgrymodd Dr Hussey y dylid trafod hyn yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Pwnc ar gyfer cyfarfod mis Mehefin.**

## Adborth ar adroddiadau arolygu

Rhannodd Margaret Rooney grynodeb o'r adborth y mae AGC yn ei gasglu gan ddarparwyr a'r cyhoedd am arolygiadau ac adroddiadau arolygu, drwy arolygon. Pwysleisiodd bwysigrwydd yr adborth hwn ac amlinellodd sut mae AGC yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella ei gwaith.